# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 2ail o Hydref 2025 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Ystafell Myrddin, Neuadd Chwilog, a drwy Zoom.**

1. **Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau.**

2. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 4ydd o Fedi 2025.**

3. **Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Medi 2025.**

4. **Datgan buddiant personol.**

5. **Materion gan Cyngor Gwynedd**
   a) **Rhwng Llys Elphin i Bro Sion Wyn, Chwilog** - trwsio draeniau mis Hydref.

   b) **Partneriaeth Natur Gwynedd** – ebost gan Mr Hywyn Williams, Swyddog Bioamrywiaeth, Cyngor Gwynedd. Cyfle i fuddsoddi 'er budd natur' yn ein etholaeth drwy raglen Cymunedau Gwyrdd Gwynedd. Cronfa ar gael i hyrwyddo bioamrywiaeth, drwy wella tir sydd o dan berchogaeth gyfrifoldeb y Cyngor Cymuned. Enghraifft o hyn fyddai creu dolydd blodau brodorol, cynnal tir er budd natur, gwella mynediad at gynefinoedd.

6. **Cais am waharddau parcio – Cyffordd Stad Tre Garn, Pencaenewydd**

Derbyniwyd gwybodaeth gan Cyngor Gwynedd yn dweud bod Adran Priffyrdd Dwyfor a'r Uwch Beiriannydd Traffig wedi bod yn trafod y pryder am y parcio sydd wrth gyffordd Tre Garn.
Maent wedi atodi cynlluniau arfaethedig am waharddau parcio yn y lleoliadau perthnasol.

Gofynwyd i ni drafod a dod i benderfyniad fel cyngor i unai fod yn gefnogol i'r ceisiadau neu ei gwrthwynebu. Os oes yna opsiynau eraill i'w cysidro byddant yn hapus i'w derbyn.

Mae'n hanfodol trafod y pwyntiau canlynol cyn dod i benderfyniad:

- Gwir bryder am ddiogelwch a llif traffig (mae'n rhaid rhoi rhesymau cyfreithiol gadarn).
- A yw'r pryder yn achlysurol neu barhaus.
- A yw'r gwaharddau newydd am greu problem debyg neu waeth mewn ardal gyfagos.
- Effeithlonrwydd y gwaharddau ar ymddygiad gyrrwyr.
- Disgwyliadau gorfodaeth yn yr ardal

Bydd angen anfon y penderfyniad ar y cynnig yn dilyn y cyfarfod.

7.**Cais cynllunio sydd angen penderfyniad**

a) **Apêl: CAS-04548-R8B8N2 - Cae Coch, Ffordd Rhoslan, Rhoslan** – dymchwel adeilad allanol presennol a chodi porthdy pren fel llety atodol. Fe wnaeth y Cyngor Cymuned wrthwynebu'r cais ar 15.04.2025.

Mae apêl wedi ei wneud i'r Arolygaeth Cynllunio parthed y safle uchod. Gwneir penderfyniad ar yr apêl ar sail Datganiad Ysgrifenedig. Gellir gweld dogfennau'r apêl ar y Porth Gwaith Achos Apeliadau ar: https://planningcasework.service.gov.wales/cy

Gan fod yr apêl hon yn apêl deiliad tŷ, nid oes cyfle i gyflwyno sylwadau pellach. Fodd bynnag, bydd unrhyw sylwadau a wnaed ar y cais cynllunio yn cael eu hanfon i'r Arolygaeth Cynllunio gyda chopi i'r apelydd. Rhoddir ystyriaeth i'r cyfryw sylwadau gan y Cynulliad wrth benderfynu ar yr apêl.

Os ydi'r Cyngor Cymuned eisiau tynnu ei sylwadau yn ôl dylid ysgrifennu at: Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru, Adeilad y Goron, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ o fewn 4 wythnos o'r 5.09.2025.

8. **Cefn Castell, Cricieth** – derbyniwyd ebost gan gymydog yn son eu bod yn hynod o bryderus am y cais cynllunio sydd wedi ei roi er mwyn sefydlogi'r clogwyn sydd o flaen ei eiddo, a'i bod wedi anfon gwrthwynebiad at Cyngor Gwynedd. Maent o'r farn byddai tyllu mewn i'r graig yn greu mwy o niwed i'w eiddo, llwybr yr arfordir, bywyd gwyllt a'r traeth. Byddai cael peirianau mawr yn ymlwybro ar hyd y llwybr yn gwanhau yr ardal o gwmpas ei tý.

**Materion yn y gymuned**.

9. **Llanystumdwy**
a) **Cronfa Ymddiriedolaeth Anne Eaden er budd plwyf Llanystumdwy.**
Llythyr gan Drysorydd Eglwys Llanystumdwy yn dweud oherwydd bod penderfyniad wedi cael ei wneud i gau yr Eglwys 09.04.2025, bydd angen ystyried beth ddylid ei wneud hefo'r Gronfa uchod. Mae manylion ei lythyr wedi cael ei anfon at y cynghorwyr o flaen y cyfarfod.

b) **Clawdd lon Maen y Wern** – angen ei dorri nol yn fwy nag y mae wedi cael ei wneud, ac o dan y bont.

10. **Rhoslan/Ynys**

11. **Chwilog**
a) **Cerrig o flaen Hidiart** - cwestiwn wedi codi am gerrig mawr, wedi ei peintio'n wyn sydd wedi eu gosod ar y glasellt wrth ochor y lôn ger tŷ Hidiart.
Angen holi pwy sydd berchen ochr y lôn, ac a oes ganddynt hawl i'w rhoi yna.
Maent yn gwneud y sefyllfa yn anodd i ffermwyr a threlar silwair ag ati wrth ceir yna rwan.

b) **Arafu Traffig yn Chwilog.**
Cynghorydd Rhys Tudur wedi derbyn gwybodaeth fod swyddogion Cyngor Gwynedd am anfon dogfennau ymlaen i gael ei ystyried, sef:-

- Ariannu arwydd fflachio a'i leoliad
- Os ydym yn cefnogi cynnig y cyngor i fewnlenwi'r gofod mewn clustogau arafu fel eu bod ar draws y lon
- Barn ar gynlluniau i arafu traffic o bont Pandy at y Lon Goed.
- Os ydym yn cefnogi cynnig y cyngor i osod arwydd rhybudd camerau cyflymder.

c) **Arbed difrod Lôn Lon Goed -** yn benodol ger Bryn March.
Derbyniwyd gwybodaeth gan Mr Dewi Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, yn cadarnhau ei fod wedi gofyn am cymorth i weld os oes modd iddynt fynd ati i ofyn i'r

perchnogion tir i lanhau eu ffosydd sydd yn rhedeg gyfochrog â'r Lôn Goed. Roeddent yn dweud fod angen gwneud hyn cyn dechrau gwella'r arwyneb. O rhan gwelliant ger Chwilog Bach a'r rhan i lawr o Hendre Cennin, roeddent wedi derbyn grant i ymgymryd y gwaith hwnnw beth amser yn nol.
Dywedodd fod y syniad o addasu'r arwyneb ger y fynedfa i lawr o Bryn March yn un synhwyrol ac mae am edrych yn fanwl ar hyn yn yr wythnosau nesaf, gan obeithio bydd y swyddogion eraill wedi cael cyfle i edrych ar y ffosydd.

12. **Pencaenewydd/Sardis**

13. **Llangybi**.
**Pont y Merched, Llangybi**- derbyniwyd ymateb gan Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, Cyngor Gwynedd, yn cadarnhau ei fod yn y broses o baratoi rhaglen i wella mynediad o gwmpas Garn Bentyrch o Llangybi fydd yn cynnwys Pont y Merched.
Dywedodd fod ychydig o drafferth ar un o'r llwybrau, sef llwybr rhif 14, rhwng Lleifior a Throed y Garn, Llangybi. Mae ffens newydd wedi ei chodi sydd yn rhwystredig i'r llwybr.
Bydd yn ein diweddaru unwaith y bydd yn cael prisiau er mwyn symud ymlaen efo'r gwelliannau.

14. **Materion Ariannol**
Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Bydd y Clerc yn anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 30.09.2025. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.

15. **Cyfarfod Cynllun Busnes/Cyllideb** am y flwyddyn ariannol nesaf 2026-2027 fydd yn cael ei gynnal o flaen y prif gyfarfod.

16. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw** | Rheswm | Pris £ | TAW | Cyfanswm Taliad £ | Taliad BACS £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Ffynnon | Hysbysebu Tachwedd a Rhagfyr 2024, a Mawrth ac Ebrill 2025 | **88.00** | | **88.00** | **88.00** |
| Rhys Jones Gwasanaethau Garddio (Wedi derbyn yr anfoneb ar 07.09.2025, ac wedi derbyn cadarnhad gan y Cadeirydd i'w dalu cyn y cyfarfod nesaf,sef ar 13.09.2025). Bydd y manylion yn cael ei llofnodi yng nghyfarfod 02.10.2025) | *O dan bont y rheilffordd i draeth Afonwen*<br>Ynysgain Bach at bont rheilffordd.<br>*Lon fawr at fythynnod Tý Newydd.*<br>Bontfechan-Tyn Morfa.<br>*Ceg llwybr hen ffordd Abercin.*<br>**Cyfanswm** | **320.00**<br>**140.00**<br>**190.00**<br>**395.00**<br>**35.00** | | **320.00**<br>**140.00**<br>**190.00**<br>**395.00**<br>**35.00** | **320.00**<br>**140.00**<br>**190.00**<br>**395.00**<br>**35.00**<br>**1080.00** |
| Fields in Trust | Archwilio blynyddol Cae Chwarae Llangybi | **106.50** | | **127.80** | **21.30** |

17. Cyflog mis Medi 2025 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm £ | Cyfanswm Taliad net £ | Taliad BACS:- £ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Medi 2025<br>35 awr y mis x £18.85 = **£659.75** a | £659.75<br>Llai treth-<br>£132.00 =<br>**£527.75** | **527.75** | **527.75** |
| Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Medi 2025<br>£660.00 x 20% = £132.00 | **£132.00** | **132.00** | **132.00** |
| Costau swyddfa Clerc Medi 2025 | **26.00** | **26.00** | **26.00** |

18. **Materion hwyr**

Bydd angen penderfynu os mai ar y nos Iau **06.11.2025** fydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Chwilog a drwy Zoom.